# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 1 Mai 2013 i'w hateb ar 7 Mai 2013

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am glystyrau newydd Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)1034(FM)

2. **Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i leihau cyfyngiadau cyflymder yng nghyffiniau ysgolion? OAQ(4)1045(FM)

3. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo'r diwydiant adeiladu yng Nghymru? OAQ(4)1048(FM)

4. **Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wella gwasanaethau cludo teithwyr ar y rheilffyrdd ledled Cymru? OAQ(4)1044(FM)

5. **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU o ran cynnwys araith y Frenhines? OAQ(4)1046(FM)**W**

6. **Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cysylltiadau trafnidiaeth rhwng gorllewin Cymru a rhannau eraill o'r wlad? OAQ(4)1033(FM)

7. William Graham (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gofal iechyd i blant yn Nwyrain De Cymru? OAQ(4)1043(FM)

**8. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am drafodaethau diweddar ynghylch datganoli y mae wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU? OAQ(4)1040(FM)

**9. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am drefniadau ar gyfer cymorth y dreth gyngor yn 2015/15? OAQ(4)1031(FM)

**10. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am waith y Cydlynydd Atal Masnachu Mewn Pobl? OAQ(4)1041(FM)**W**

**11. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i ysgolion yng Nghymru i ddarparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion mewn gofal er mwyn iddynt allu cyflawni eu llawn botensial? OAQ(4)1037(FM)

**12. Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru):** Pa wersi y mae'r Llywodraeth wedi eu dysgu yn sgîl ei hymateb i effaith y tywydd garw diweddar ar y diwydiant amaeth yng Nghymru? OAQ(4)1036(FM)**W**

**13. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gostau ychwanegol adeiladu tai fforddiadwy yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)1039(FM)

**14. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am faint o ynni y mae Cymru yn ei greu ac yn ei ddefnyddio? OAQ(4)1035(FM)**W**

15. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd a gyflawnwyd o ran hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, o dan y 'Rhaglen Lywodraethu'? OAQ(4)1047(FM)